OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 No. 376

# Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2007

## RHAN 8

Cynhyrchion a Ddychwelwyd o Drydydd Gwledydd

### Ystyr "tystysgrif allforio"

**50.** Yn y Rhan hon, ystyr "tystysgrif allforio", mewn perthynas â chynnyrch a ddychwelwyd, yw tystysgrif—

(a) a ddyroddwyd gan awdurdodau gwlad yr allforio gwreiddiol; a

(b) sy'n datgan bod y cynnyrch a ddychwelwyd yn cydymffurfio â'r safonau perthnasol sydd gan y wlad sy'n derbyn y cynnyrch ac yr allforiwyd y cynnyrch iddo'n wreiddiol ar gyfer iechyd anifeiliaid neu iechyd y cyhoedd.

### Dogfennau ychwanegol ar gyfer cynhyrchion a ddychwelwyd

**51.** Rhaid i unrhyw berson sy'n rhoi gerbron, yn unol â rheoliad 18 gynnyrch a ddychwelwyd a'i ddogfennau gofynnol i filfeddyg swyddogol, roi'r canlynol gerbron gyda'r dogfennau gofynnol—

(a) y dystysgrif allforio sy'n ymwneud â'r cynnyrch a ddychwelwyd neu gopi y dilyswyd ei fod yn gopi cywir gan yr awdurdod a'i dyroddodd;

(b) datganiad o'r rhesymau pam y cafodd y cynnyrch a ddychwelwyd ei wrthod gan y drydedd wlad;

(c) datganiad gan y person sy'n gyfrifol dros y cynnyrch a ddychwelwyd yn dweud y bu cydymffurfiaeth, ers i'r cynnyrch a ddychwelwyd gael ei allforio'n wreiddiol o diriogaeth dollau'r Gymuned, ag amodau mewnforio ynglyn â storio a chludo mewn perthynas â'r cynnyrch a ddychwelwyd; a naill ai

(ch) yn achos cynnyrch a ddychwelwyd na chafodd ei allforio'n wreiddiol mewn cynhwysydd wedi'i selio, datganiad gan y person sy'n gyfrifol dros y cynnyrch a ddychwelwyd nad yw'r cynnyrch wedi cael ei drafod mewn unrhyw fodd heblaw, yn achos cynhyrchion sydd wedi'u pecynnu'n unig, am lwytho a dadlwytho pecynnau sydd heb eu hagor; neu

(d) yn achos cynnyrch a ddychwelwyd ac a allforiwyd yn wreiddiol mewn cynhwysydd wedi'i selio, datganiad gan y cludydd sy'n dod â'r cynnyrch i Gymru nad yw wedi'i ddadlwytho o'r cynhwysydd y cafodd ei allforio ynddo, nac wedi cael ei drafod fel arall.

### Gwiriad ffisegol o gynhyrchion a ddychwelwyd

**52.** Dim ond os oes gan y milfeddyg swyddogol seilau rhesymol dros gredu—

(a) na chydymffurfiwyd, neu na chydymffurfir, â'r Rheoliadau hyn mewn perthynas â'r cynnyrch a ddychwelwyd;

(b) nad yw'r cynnyrch a ddychwelwyd yn cydymffurfio â'r amodau mewnforio; neu

(c) nad yw manylion adnabod neu gyrchfan y cynnyrch a ddychwelwyd yn cyfateb i'r wybodaeth a roddwyd ar unrhyw ddogfen berthnasol

y mae angen i unrhyw berson y mae rheoliad 18 yn ei gwneud yn ofynnol iddo roi cynnyrch a ddychwelwyd gerbron y milfeddyg swyddogol wrth safle arolygu ar y ffin, neu sicrhau fod y cynnyrch hwnnw yn cael ei roi ger ei fron, ganiatáu i filfeddyg swyddogol neu gynorthwyydd a benodwyd yn unol â rheoliad 6(1)(b) neu 6(2)(c), gyflawni gwiriad ffisegol ar y cynnyrch a ddychwelwyd.

**Symud cynhyrchion a ddychwelwyd**

**53.**—(1) Ni chaiff neb symud cynnyrch a ddychwelwyd o safle arolygu ar y ffin, na pheri iddo gael ei symud,—

(a) heb awdurdodiad ysgrifenedig y milfeddyg swyddogol yno; a

(b) oni bai ei fod wedi'i gynnwys mewn cynhwysydd sy'n ddiogel rhag gollyngiadau neu mewn cyfrwng cludo sydd wedi'i selio gan un o swyddogion Refeniw a Thollau neu gan y milfeddyg swyddogol wrth y safle arolygu hwnnw ar y ffin.

(2) Rhaid i'r person sy'n gyfrifol dros gynnyrch a ddychwelwyd ac a symudwyd yn unol â pharagraff (1), ac unrhyw gludydd sydd â gofal drosto am y tro sicrhau—

(a) ei fod yn cael ei gludo'n uniongyrchol i'w sefydliad tarddiad Cymunedol yn y cynhwysydd seliedig sy'n ddiogel rhag gollyngiadau neu yn y cyfrwng cludo y cyfeiriwyd ato ym mharagraff (b); a

(b) bod ei ddogfen fynediad filfeddygol gyffredin yn mynd gydag ef hyd oni fydd y cynnyrch a ddychwelwyd yn cyrraedd ei sefydliad tarddiad Cymunedol.

(3) Ni chaiff neb—

(a) dorri'r seliau ar y cynhwysydd neu'r cyfrwng cludo y mae'r cynnyrch a ddychwelwyd yn cael ei gludo ynddo;

(b) dadlwytho'r cynnyrch a ddychwelwyd;

(c) hollti'r llwyth neu'r rhanlwyth sy'n cynnwys y cynnyrch a ddychwelwyd; na

(ch) peri i'r cynnyrch a ddychwelwyd gael ei drafod mewn unrhyw fodd,

nes i'r cynnyrch gyrraedd ei sefydliad tarddiad Cymunedol.

(4) Rhaid i weithredydd y sefydliad tarddiad Cymunedol roi hysbysiad ysgrifenedig ar unwaith i'r swyddog milfeddygol sy'n gyfrifol ar ran y Cynulliad Cenedlaethol neu'r Asiantaeth ar gyfer y sefydliad hwnnw fod y cynnyrch a ddychwelwyd wedi cyrraedd yno.